



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

CYFLWYNIAD I'R ADOLYGIAD DIOGELU UNEDIG SENGL (SUSR)

Cyfres Seminar Hydref/ Gaeaf 2022

AN INTRODUCTION TO THE SINGLE UNIFIED SAFEGUARDING REVIEW (SUSR)

Autumn/ Winter Seminar Series 2022

06/12/2022, 10:00 – 10:45

PECYN DIGWYDDIAD / EVENT PACK

CYNNWYS ▪ CONTENTS

Cwestiynau Cyffredin ▪ FAQs

**#cymunedaumwydiogel
#safercommunities**



Cwestiynau Cyffredin

Q. Sut mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgysylltu gyda neu ymateb i'r adolygiad, ei ganfyddiadau, a'r dull newydd sy'n codi? A yw'r Swyddfa Gartref wedi dysgu ac addasu ei ddull i brosesau a chanllawiau ADD o ganlyniad?

A. Mae llawer o drafodaethau da, rhannu a chyfnewid gwybodaeth a thempledi wedi digwydd rhwng y Swyddfa Gartref a'r tîm SUSR, yn arbennig o ran Adolygiadau Dynladdiad Domestig (ADD).

Mae ochr Adolygiadau Dynladdiadau Arfau Ymosodol (ADAY) y Swyddfa Gartref wedi cael eu hymgyngorydd eu hun i siarad â rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn deall beth sydd wedi digwydd a beth sydd angen newid. Fe wrandawon nhw, a dyna pam mae'r canllawiau ar gyfer ADAY yn gwbl wahanol ac wedi dysgu o'r gwersi hynny.

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn adolygu ei ganllawiau ADD, a'r gobraith yw y byddent yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yng Nghymru, yn ogystal ag ochr ADAY drwy Crest Advisory e.e. mae'r adolygiadau yn cymryd rhy hir, ac rydym angen un adolygiad yn hytrach na nifer o wahanol rai.

Q. A fydddech cystal â rhoi mwy o wybodaeth ar y gwaith sy'n cael ei ddatblygu mewn perthynas â hunanladdiad, a grybwyllwyd yn gryno yn ystod y cyflwyniad? Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes yn cynnal grwpiau adolygu hunanladdiad, a phe byddem yn darparu canllawiau, mae'n llawer gwell gwneud hynny yn genedlaethol er mwyn sicrhau fod pawb wedi cysylltu.

A. Mae'r tîm SUSR ar hyn o bryd yn trafod ac yn edrych ar hunanladdiad gyda'r Swyddfa Gartref. Ar hyn o bryd maent yn ymgysylltu mewn prosiect System Wylidwriaeth Amser Real a cheisio dod â phopeth ynghyd. Nid oes atebion i'w rhannu eto, ond mae'r bobl iawn mewn trafodaethau. Mae posibilrwydd ar gyfer pecyn gwaith cyngor ac arweiniad i'w ddatblygu, yn hytrach na'r canllawiau statudol fel yr amlygwyd yn y cyflwyniad.



Cwestiynau Cyffredin

Q. Sut ydych chi wedi delio â phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio gyda sefydliadau partner? Pa fath o gyfraniad ydych chi wedi ei gael o ran gwaith partneriaeth er mwyn gweithredu'r argymhellion hynny mewn ffordd gydlynol?

A. Mae amrywiaeth o ymarferwyr ar draws Cymru wedi bod yn rhan o'r Grwpiau Tasg a Gorffen, sydd wedi golygu fod y tîm SUSR wedi cael y gorau allan o brosesau gan yr holl asiantaethau. Oherwydd hyn, mae model rhyngweithiol o gynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw sefydliad glicio ar fotwm a chanfod pob argymhelliad sydd wedi cael ei wneud, os yw'r rheiny heb eu gweithredu eto, neu beth yw eu cynnydd - a bydd pob sefydliad arall hefyd yn gallu gweld hyn. Golyga hyn y bydd yr adolygiad yn fwy tryloyw ac ymarferol a bydd yn sicrhau fod pob argymhelliad yn cael eu trin. Mae partneriaid yn croesawu'r model hwn.

Mae strwythurau llywodraethol, megis y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn hanfodol i ddarparu agweddau trosolwg, cydlynu, craffu ac adolygu cyfoedion i'r SUSR.



FAQs

Q. How has the Home Office engaged with or responded to the review, its findings, and the emerging new approach? Has the Home Office learned and adapted its approach to DHRs processes and guidance as a result?

A. There's a lot of good discussions, sharing and exchanging of information and templates taking place between the Home Office and the SUSR team, especially regarding Domestic Homicide Reviews (DHRs).

The Offensive Weapons Homicide Reviews (OWHRs) side of the Home Office had their own consultancy speak to Community Safety Partnership managers to understand what has happened and what needs to change. They listened, which is why the guidance for OWHRs is completely different and has learned from those lessons.

The Home Office is currently reviewing its DHRs guidance, and the hope is that they are taking on board the lessons learned in Wales as well as from the OWHRs side of the house through Crest Advisory e.g. the reviews take too long, and we need one review rather than several different ones.

Q. Please can we receive some more information on the work being developed around suicides, which was briefly mentioned during the presentation? Some Local Authorities are already holding suicide review groups, and if we were to provide guidance, it's much better to do that on a national footprint to make sure that everybody is connected.

A. The SUSR team is currently discussing and looking at suicides with the Home Office. They are currently engaged in a Real Time Surveillance System project and trying to bring everything together. There are no answers to share yet, but the right people are in discussions. There is potential for an advice and guidance toolkit to be developed afterwards, rather than the statutory guidance as highlighted in the presentation.



FAQs

Q. How have you dealt with the importance of working in partnership and collaboration with partner organisations? What sort of buy in have you had regarding partnership working to implement those recommendations in a coordinated way?

A. A range of practitioners from across Wales have been involved in the Task and Finish Groups, which has meant that the SUSR team have had the best out of processes from all agencies. Because of this, an interactive model of an action plan has been developed. This means that any organisation will be able to click on a button and identify every single recommendation that has been made, whether it's outstanding, or where it is in terms of its progress – and every other organisation will also be able to see this. This will mean that the review will be more transparent and workable and will ensure that every recommendation is acted upon. Partners are welcoming this model.

Governance structures, such as the Regional Partnership Boards, Public Service Boards, and Community Safety Partnerships, are integral to providing an oversight, coordination, scrutiny and peer review aspect to the SUSR.